# Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

### Tystiolaeth gan Bethan Williams

Annwyl Fadam/Syr,

Rwy'n croesawu'r bwriad i ddeddfu ar y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol drwy addasu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, ond yn galw arnoch i wneud newidiadau pwysig i'ch cynlluniau deddfwriaethol a pholisïau:

(i) Dylai'r Cofnod o drafodion y cyfarfodydd llawn fod yn gwbl ddwyieithog, a dylai'r Ddeddf ei hun nodi yn eglur y bydd hynny'n digwydd. Fel arall, fe fydd y Cynulliad yn gosod cynsail peryglus i holl awdurdodau cyhoeddus Cymru yn ogystal â sefydliadau eraill.

(ii) Mae angen cryfhau y Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog a newid cymalau sy'n tanseilio'r egwyddor gyffredinol o gydraddoldeb ieithyddol. Arwynebol fyddai datgan fod y Cynulliad am fod yn gorff cwbl ddwyieithog ond fod hynny wedyn ddim yn cael ei weithredu. Dyali'r Cynulliad fod ar flaen y gad yn ei darpariaeth o wasanaethau Cymraeg gan ddangos esiampl i sefydliadau eraill.

(iii) Dylid ehangu'r Bil a'r Cynllun y tu hwnt i "wasanaethau" yn unig, gan fynd i'r afael hefyd â lle y Gymraeg yn swyddogaeth y Cynulliad fel deddfwrfa, swyddogaeth yr Aelodau Cynulliad, a lle'r Gymraeg y tu hwnt i wasanaethau yn unig.

(iv) Mae'n hanfodol bod mwy ynghylch sgiliau iaith staff a defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y Cynllun ei hun. Dylai hynny gynnwys sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant iaith ac mai'r nod yn y pen draw fydd pob yr holl staff yn gwbl ddwyieithog gyda'r Gymraeg fel prif iaith fewnol y Cynulliad. Gallu pobl i weithio drwy'r Gymraeg os dymunant ac i'r cyhoedd allu ymwneud a'r Gymraeg yn gyfangwbl os ydynt yn dymuno hynny fydd yn profi fod y Cynulliad yn sefydliad dwyieithog felly mae sicrhau gweithlu Cymraeg yn hanfodol ar gyfer hyn.

(v) Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu, mae angen targedau eglur y bydd modd eu mesur dros gyfnod o amser, a chynnwys strwythur agored ac annibynnol yn y Bil i fonitro gweithrediad y Cynllun.

(vi) Dylid nodi ar wyneb y Bil bod gan bobl Cymru, yn ogystal â staff ac Aelodau Cynulliad yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Byddai gen i ddiddordeb clywed sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn.
Diolch yn fawr

Bethan Williams